# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-03-09 Papur 2: 10 Chwefror 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor. Daeth llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf i law ar ffurf gohebiaeth. Pan fo'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth wedi'u cynnwys fel atodiad PET(3) 03-09 Papur 2A i'r papur hwn.

| **(i) P-03-089 Ysgolion Cymunedol Powys** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br>'Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal cymunedau Powys, sir fwyaf gwledig Cymru, ac i atal a gwrth-droi'r pwysau sydd ar Gyngor Sir Powys i gau'r ysgolion sy'n galon y cymunedau hynny.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Ysgolion Cymunedol Powys |
| **Nifer y deisebwyr:** | 20 |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 06 Rhagfyr 2007, 17 Ionawr 2008, 21 Chwefror 2008, 10 Ebrill 2008 a 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-89.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 10 Ebrill 2008, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ystyried y mater hwn ymhellach. Ers hynny, cynhaliodd yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig ymchwiliad craffu i ad-drefnu ysgolion gwledig a chyhoeddodd adroddiad ar ei ymchwiliad.<br>Mae'r Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb. Mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. Cafodd yr adroddiad ei drafod mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol ar 28 Ionawr. | |

| **(ii) P-03-109 Cynlluniau yn Erbyn Bwlio Mewn Ysgolion** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br>'Mae'r disgyblion yn Ysgol Uwchradd Penfro yn galw ar Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyllido cynlluniau yn erbyn bwlio mewn ysgolion ac yn y cymuned' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Maria Van Asshe |
| **Nifer y deisebwyr:** | 10 |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 10 Ebrill 2008 a 20 Tachwedd 2008 |

| | |
|---|---|
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-109.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2008, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru.<br>Mae'r Comisiynydd Plant Cymru wedi ymateb, ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| **(iii) P-03-122 Chwarel Hafod** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br>'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â dynodi Chwarel Hafod yn safle o Bwysigrwydd Cenedlaethol' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Hafod Environmental Group |
| **Nifer y deisebwyr:** | 1 sefydliad |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 16 Hydref 2008 a 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-122.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymateb, ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| **(iv) P-03-137 Hypothyroidedd** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br>'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r diffyg diagnosis o hypothyroidedd a'r gamreolaeth ohono yng Nghymru gyda golwg ar gynhyrchu argymhellion i gywiro'r sefyllfa hon.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Dr Sarah Myhill |
| **Nifer y deisebwyr:** | |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 16 Hydref 2008 a 20 Tachwedd 2008. |

| | |
|---|---|
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-137.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2008, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y prif ddeisebwr.<br><br>Mae'r prif ddeisebwr wedi ymateb, ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| | |
|---|---|
| **(v)P-03-141/149 Maes Awyr Llanbedr** | |
| **Geiriad y ddeiseb**<br><br>**P-03-141 O blaid maes awyr Llanbedr:**<br><br>'Maes Awyr Llanbedr - Oes, Oes, Oes!<br><br>Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, o blaid datblygu maes Awyr Llanbedr er mwyn dod â gwaith i'r ardal, hybu twristiaeth a datblygu'r economi leol..'<br><br>**Cynigiwyd gan:** Gwynli Jones<br><br>**Nifer y deisebwyr:** 1,240<br><br>**Linc i'r ddeiseb:** h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/p-03-141 | |
| **P-03-149 Yn erbyn maes awyr Llanbedr:**<br><br>'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gychwyn archwiliad cyhoeddus llawn o'r cynnig i greu canolfan hedfan masnachol ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sy'n mynd yn groes i'r dibenion statudol y cafodd Parciau Cenedlaethol eu creu ar eu cyfer.'<br><br>**Cynigiwyd gan:** Cymdeithas Eryri<br><br>**Nifer y deisebwyr:** 156<br><br>**Linc i'r ddeiseb:** h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/p-03-149 | |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 23 Gorffennaf 2008, 2 Hydref 2008, 16 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2008 |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009,cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog.<br><br>Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| | |
|---|---|
| **(vi)P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion** | |

| | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br>'Yr ydym ni, y cynrychiolwyr a lofnodir isod, yn deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, a chydymffurfio â hwy drwy beidio â chreu canol trefi, strydoedd mawr na strydoedd preswyl gydag arwynebau a rennir sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol a phobl anabl eraill, gan eu hallgáu i bob pwrpas o amgylchedd y stryd.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Cŵn Tywys y Deillion |
| **Nifer y deisebwyr:** | 10 sefydliad |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 25 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008 a 27 Ionawr 2009. |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-144.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2009,cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y prif deisebwr.<br>Mae'r prif ddeisebwr wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| **(vii) P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br>'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio a yw'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu angenrheidiol ar waith gan Fyrddau Iechyd Lleol er mwyn cyrraedd y targed o ran cyflawni â'r Safonau Canser Cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2008 yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru, fel mater o frys.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | 'Rhondda Breast Friends' |
| **Nifer y deisebwyr:** | Casglodd yr e-ddeiseb 43 o lofnodion.<br>Yn ogystal â hyn, mae Rhondda Breast Friends wedi datblygu siarter ynghylch y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau gofal canser, sydd wedi ei lofnodi gan 1,475 o bobl |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 9 Gorffennaf 2008, 6 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009 |

| | |
|---|---|
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-150.htmP-03-150%20-%20Safonau%20Canser%20Cenedlaethol |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y bwrdd iechyd lleol.<br><br>Mae'r bwrdd iechyd lleol wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| | |
|---|---|
| **(viii) P-03-170 MENCAP Cymru** | |

| | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br><br>'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i arwain gyda golwg ar gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu, ac i annog cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus, megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol, i gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu.<br><br>Dim ond 1 o bob 10 o bobl ag anableddau dysgu y mae arnynt eisiau gweithio sydd mewn unrhyw fath o gyflogaeth lle rhoddir tâl. Mae hyn yn annheg.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Mencap Cymru |
| **Nifer y deisebwyr:** | 134 |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-170.htmP-03-170%20-%20I%20gynyddu%20nifer%20y%20bobl%20ag%20anableddau%20dysgu%20a%20gyflogir%20gan%20y%20sector%20cy |
| | |

| | |
|---|---|
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009,cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn yr Cynulliad a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.<br><br>Mae'r Gweinidog a'r Comisiwn wedi ymateb ac mae copi o'r ymatebion yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| **(ix)P-03-178 Carchar Newydd** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br><br>'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lleoliad arfaethedig y carchar newydd ar gyfer Cymru, yn enwedig y goblygiadau o leoli'r carchar yn Greenmeadow, Cwmbrân.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Cyng. Elizabeth Haynes |
| **Nifer y deisebwyr:** | 15 (Yn ychwanegol at hynny, casglodd y deisebwyr 7000 o lofnodion ychwanegol ar gyfer deiseb gysylltiol) |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-178.htmP-03-178%20-%20Carchar%20Newydd |
| | |

| | |
|---|---|
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.<br><br>Mae'r Gweinidog wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| **(x) P-03-179 Myfyrwyr Ôl-19 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br><br>'Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gofyn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi sylw i'r problemau sy'n wynebu myfyrwyr 19+ oed sydd ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu cymhleth. Ar gyfer myfyrwyr nad ydynt am fynychu addysg breswyl, nid oes Coleg priodol yng Nghymru iddynt ei fynychu sy'n diwallu eu hanghenion cymhleth' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Julie Prosser |
| **Nifer y deisebwyr:** | 10 |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 6 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-179.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009,cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Dysgu.<br><br>Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| **(xi)P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br><br>'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn protestio yn erbyn israddio Uned Gofal Arbennig i Fabanod Ysbyty Brenhinol Morgannwg o uned gofal dwys lefel 3 i uned dibyniaeth mawr.<br><br>Er ein bod yn deall yr angen i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddigonol a bod gan y staff y cymwysterau addas i sicrhau bod cleifion yn ddiogel, rydym yn gresynu wrth y diffyg buddsoddi sydd wedi arwain at y sefyllfa hon.<br><br>Rydym felly yn ceisio'r sicrwydd mai rhywbeth dros dro am yr amser byrraf bosibl yw'r israddio hwn, ac y bydd yr uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei hailsefydlu fel uned gofal dwys lefel 3 lawn.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Zoe Walters |

| | |
|---|---|
| **Nifer y deisebwyr:** | 2,340 |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 20 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-188.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| **(xii)P-03-194 Gwasanaeth bws o Gwm Rhymni i Gaerdydd** | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br>'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cymru i gefnogi'r syniad o ailgychwyn y gwasanaeth bws o Fargoed i Gaerdydd. Byddai darparu cyllid drwy Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi teithwyr Cwm Rhymni i deithio i Gaerdydd, eu prif ddinas, ar wasanaeth bws uniongyrchol. Nid yw'r bysiau sy'n teithio i Bontypridd a Chaerdydd wedi eu hamseru i gysylltu â gwasanaethau eraill yn effeithiol. Felly, mae torri gwasanaethau yn peryglu swyddi ynghyd â hwyhau'r amser y mae'n rhaid i deithwyr aros ar holl deithiau llwybr bws X38.' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Penelope Cody |
| **Nifer y deisebwyr:** | 335 |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-194.htmP-03-194%20-%20Gwasanaeth%20bws%20o%20Gwm%20Rhymni%20i%20Gaerdydd |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009,cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y gweithredwr gwasanaethau bysiau - Stagecoach.<br>Mae Stagecoach wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

| (xiii)P-03-196 Sutent | |
|---|---|
| **Geiriad y ddeiseb**<br><br>'Helpu i ymestyn bywyd Paul Popham a bywydau cleifion canser yr arennau y gwrthodir triniaeth iddynt ar hyn o bryd. Dim ond 63 oed yw Paul Popham ac mae'n byw yn Nhreforys, Abertawe. Cafodd ddiagnosis o ganser yr arennau ar 27 Hydref 2008. Mae ei feddyg ymgynghorol am ragnodi Sutent iddo, sydd yn driniaeth nad yw Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe yn ei hariannu. Nid yw hwn yn achos unigryw. Mae tua 6,200 o bobl yn cael diagnosis o ganser yr arennau bob blwyddyn. Mae'n bosibl y bydd angen cyllid ar gyfer meddyginiaeth canser ar 3,000 o'r cleifion hyn. Mae'n rhaid i'r rhai sydd angen Sutent arnynt apelio at ei Bwrdd Iechyd Lleol am y cyllid hwn.<br><br>Mae hon yn sefyllfa afresymol a chreulon i gleifion canser. Mae rhai Byrddau Iechyd Lleol yn derbyn tystiolaeth gan uwch feddygon ymgynghorol canser, ond mae awdurdodau eraill yn gorfodi cleifion sydd mewn sefyllfa ddifrifol ac sy'n sâl i oddef proses hir a chymhleth o achosion eithriadol/apeliadau, ac yna'n anwybyddu barn y meddyg ymgynghorol ac yn gwrthod ariannu'r driniaeth a argymhellwyd.<br><br>Mae'n annerbyniol ac yn anfoesol y gwrthodir y feddyginiaeth hon i gleifion canser yr arennau o Brydain, sydd heb obaith arall, a'u bod yn cael eu dedfrydu i farwolaeth gynamserol. Llofnodwch isod i roi pwysau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymroi'n bersonol i wneud pob dim sydd o fewn eu gallu i sicrhau bod y feddyginiaeth hon ar gael i'r cleifion hyn heddiw!' | |
| **Cynigiwyd gan:** | Joanne Popham |
| **Nifer y deisebwyr:** | 7,981 |
| **Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** | 13 Ionawr 2009 |
| **Linc i'r ddeiseb:** | h<br><br>ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-196.htm |
| | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:** Yn ystod ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2009,cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethu Cymdeithasol.<br><br>Mae'r Gweinidog wedi ymateb ac mae copi o'r ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 03-09 Papur 2B. | |

**Gwasanaeth Pwyllgorau**

**Chwefror 2009**